Helô

Treuliasom fis Hydref yn eich dathlu chi – plant anhygoel y gofalwyr maeth sydd â rôl hanfodol i gynorthwyo plant mewn gofal maeth.

Mae arnaf eisiau cymryd munud i ddiolch ichi am bopeth a wnewch i wneud i'r plant sy'n ymuno â'ch teulu deimlo'n ddiogel, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u caru. Fel plentyn gofalwyr maeth, rydych yn cyfrannu cymaint tuag at fywydau plant mewn gofal, a chaiff eich caredigrwydd, eich amynedd a'ch parodrwydd i ddeall eu gwerthfawrogi'n fawr iawn.

Mae bod yn rhan o deulu sy'n maethu yn orchwyl sylweddol. Mae'n gofyn am hyblygrwydd, cydymdeimlad a pharodrwydd i rannu'ch cartref a'ch teulu. Agorasoch eich calon i blant sydd ei angen fwyaf, gan gynnig cyfeillgarwch a chefnogaeth iddynt pan fônt ar eu mwyaf diymgeledd.

Mae gen i atgofion melys iawn o weithio gyda phlant gofalwyr maeth. Blynyddoedd lawer yn ôl, helpais i sefydlu grŵp cefnogaeth gan gymheiriaid i blant gofalwyr maeth. Wrth imi dreulio amser gyda'r grŵp, dysgais am uchafbwyntiau a gwaelodion isaf tyfu'n hŷn mewn teulu maeth, a gwelais sut y gwnewch fwy nag sy'n rhaid i sicrhau bod plant mewn gofal maeth yn teimlo y cânt eu caru.

Mae'ch ymdrechion yn helpu i greu amgylchedd diogel, llawn cariad lle y gall plant maeth deimlo'n ddiogel a lle y cânt eu gwerthfawrogi. Mae'r ffordd rydych yn eu croesawu, yn dangos amynedd iddynt wrth iddynt ymaddasu, a bod yn gefn iddynt yn ystod adegau anodd yn gwneud byd o wahaniaeth yn eu bywydau. Mae'ch cefnogaeth yn eu helpu i wella clwyfau, i dyfu, ac i deimlo fel petaent yn perthyn.

Ar ran pawb yn Y Rhwydwaith Maethu a'r gymuned faethu ehangach, mae arnaf eisiau dweud diolch yn fawr iawn. Mae'ch cyfraniad tuag at faethu yn amhrisiadwy, ac mae'ch gweithredoedd yn newid bywydau er y gwell. Diolch am bopeth a wnewch.

Gyda diolchiadau twymgalon,

Sarah Thomas

Prif Weithredwr Y Rhwydwaith Maethu